# Gohebiaeth AWEMA

*22/03/2012*

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 27 Chwefror 2012. Atebaf bob rhan o'ch cais yn ei thro, fel y gwelwch isod.

***O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn wneud cais am unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth a fu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch AWEMA yn ystod 2011 a 2012.***

Gweler isod fanylion neu ohebiaeth a dogfennau, y mae pob un wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cynulliad:

1 – Trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 31 Ionawr 2012
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5583/31%20January%202012.pdf

2 – Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: 9 Chwefror 2012
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5507/All%20Wales%20Ethnic%20Minority%20Association%20-%20letter%20from%20Permanent%20Secretary%20of%20the%20Welsh%20Goverment.pdf

3 – Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu o fewn Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan: 9 Chwefror 2012
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s5508/A%20Review%20of%20the%20Effectiveness%20of%20Governance%20and%20Financial%20Management%20within%20the%20All%20Wales%20Ethnic%20Minority%20Association%20AWEMA.pdf

4 – Trawsgrifiad o ddadl yn y Cyfarfod Llawn, sy'n cynnwys Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan: 22 Chwefror 2012 http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop/rop20120222qv.pdf?langoption=3&ttl=The%20Record%20%28PDF%2C%201%2C562KB%29

Yn atodedig i'r ymateb hwn hefyd, fe welwch dair dogfen nad ydynt wedi'u cyhoeddi gan eu bod yn weinyddol eu natur yn fwy na dim.

5 – Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ohebiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, 9 Chwefror 2012.

6 – Rhagor o ohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, 23 Chwefror 2012.

7 – Ymateb gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ohebiaeth yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Chwefror 2012.

***Hoffwn ofyn hefyd am unrhyw wybodaeth neu ohebiaeth a fu rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a swyddfa Edwina Hart AC ynghylch AWEMA yn ystod 2011 a 2012.***

Ni chedwir unrhyw ohebiaeth berthnasol ynghylch y mater hwn.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn <http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm>. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, gallwch ddilyn y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Achos pryder am eich ymateb Rhyddid Gwybodaeth neu gŵyn yn ei gylch?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**